# Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd

## Creu hanes

Ar ddydd Sul 29 Ebrill 2001 bydd pobl Prydain yn cymryd rhan yn yr ugeinfed Cyfrifiad cenedlaethol llawn o'r boblogaeth. Bydd 200 mlynedd wedi mynd heibio ers cynnal cyfrifiad cyntaf y cyfnod modern yn y Deyrnas Gyfunol.

## Cynnal cyfrifiad yn yr hen fyd

Mae gwareiddiadau o bob oes wedi nodi'r angen i gasglu gwybodaeth am eu hased mwyaf gwerthfawr – eu pobl. Drwy hanes mae caethweision, gwerinwyr a thaeogion, uchelwyr, clerigwyr a brenhinoedd i gyd wedi cymryd rhan mewn cyfrifiadau.

Cynhaliodd y Babiloniaid a'r Tsieineaid gyfrifiadau yn bennaf at ddibenion milwrol a threth. Casglodd yr Eifftwyr wybodaeth am y boblogaeth fel y gallent drefnu byddinoedd o bobl i adeiladu eu pyramidiau enfawr ac i ailddosbarthu'r tir wedi i'r afon Nîl orlifo ei glannau bob blwyddyn.

Cynhaliodd y Groegwyr a'r Rhufeiniaid gyfrifiadau o'r boblogaeth flynyddoedd lawer cyn geni Crist. Y cyfrifiad bob pum mlynedd a orchmynnwyd gan Cesar Awgwstws oedd yn galw ar bob dyn yn y Deyrnas Rufeinig i ddychwelyd i'r man y cafodd ei eni, gan sicrhau bod Joseff a Mair wedi teithio i Fethlehem ar gyfer genedigaeth Crist.

YSTADEGAU GWLADOL

Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk

## Dydd y Farn a thu hwnt – cyfrifiadau ym Mhrydain

Cynhaliwyd y cyfrifiad cyntaf yng Nghymru a Lloegr ym 1086 pan orchmynnodd Gwilym Goncwerwr bod Llyfr Dydd y Farn yn cael ei gynhrychu. Roedd y rhestr fanwl hon o dir ac eiddo yn gamp enfawr ar y pryd. Cymerodd sawl blwyddyn i'w gwblhau, ac mae'n rhoi darlun arbennig i ni o fywyd ym Mhrydain yn y cyfnod Normanaidd.

Yng nghyfnod y Tuduriaid a'r Stiwartiaid gwnaed esgobion yn gyfrifol am gyfrif nifer y teuluoedd yn eu hesgobaethau, ond roedd Prydain yn anfodlon iawn mabwysiadu'r syniad o Gyfrifiad swyddogol rheolaidd.

Tra cynhaliodd Quebec ei Chyfrifiad swyddogol cyntaf ym 1666, Gwlad yr Iâ ym 1703 a Sweden ym 1749, roedd Prydain yn araf iawn yn dilyn eu hesiampl. Credai eglwyswyr duwiol bod cyfrif pobl mewn unrhyw fodd yn gableddus. Byddent yn dyfynnu y cyfrifiad Hebreaidd gan Frenin Dafydd yng nghyfnod y Beibl yr amharwyd arno gan bla dychrynllyd ac na chafodd ei gwblhau erioed. Dywedodd eraill y byddai cyfrifiad o'r boblogaeth yn datgelu cryfderau a gwendidau'r genedl i elynion tramor.

Tua diwedd y 18fed Ganrif, fodd bynnag, daeth yn fwyfwy amlwg nad oedd gan neb unrhyw syniad o nifer y bobl oedd yn byw ym Mhrydain. Dywedodd rhai bod y boblogaeth yn cynyddu tra roedd eraill yn sicr ei bod yn gostwng.

## Gweld synnwyr yn y Cyfrifiad

Diflannodd y gwrthwynebiad i gyfrifiad swyddogol wedi i'r demograffydd enwog Thomas Malthus gyhoeddi ei draethawd ar 'egwyddor poblogaeth' ym 1798. Achosodd Malthus bryder mawr drwy awgrymu y byddai twf yn y boblogaeth yn mynd y tu hwnt i gyflenwadau bwyd ac adnoddau eraill. Heb allu cynnal ei hun, byddai Prydain yn cael ei tharo gan newyn, afiechyd a thrychinebau eraill.

Wedi'u dychryn gan y darlun brawychus hwn o'r dyfodol, dechreuodd pobl weld yr angen am gyfrifiad. Pasiodd y Senedd Ddeddf y Cyfrifiad ym 1800 a chynhaliwyd y Cyfrifiad swyddogol cyntaf yng Nghymru a Lloegr ar 10 Mawrth 1801.

Casglwyd gwybodaeth o bob cartref gan Oruchwylwyr y Tlodion, gyda chymorth cwnstabliaid, dectrefwyr a swyddogion heddwch eraill. Roedd y Ddeddf hefyd yn berthnasol i'r Alban, ac yno cyfrifoldeb yr ysgolfeistri oedd cynnal y cyfrifiad. Yn Iwerddon, cynhaliwyd y cyfrifiad modern cyntaf 20 mlynedd yn ddiweddarach, ym 1821.

Dangosodd y cyfrifiad swyddogol cyntaf mai 9 miliwn oedd poblogaeth Prydain Fawr ar y pryd. Roedd amcangyfrifon eraill wedi amrywio rhwng 8 miliwn a 11 miliwn.

Proseswyd gwybodaeth am bob person yn y wlad gan fyddin o glercod yn defnyddio papur a phin ysgrifennu yn unig. Ni lwyddodd technoleg i wneud y cyfrifiad yn haws tan 1911, pan gyflwynwyd cardiau tyllog a didoli mecanyddol. Defnyddiwyd cyfrifiaduron am y tro cyntaf ym 1961 ac maent yn chwarae rôl hanfodol bellach.

## Y Cyfrifiad modern

Ystyrir mai'r cyfrifiad a gynhaliwyd ym 1841 oedd y cyfrifiad modern cyntaf, pan wnaed Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr, John Lister, yn gyfrifol am drefniadaeth y cyfrif. Trosglwyddwyd y dasg o gyfrif i swyddogion lleol y gwasanaeth cofrestru a oedd newydd ei greu.

Am y tro cyntaf rhoddwyd ffurflen i bennaeth pob cartref ei llenwi ar ran pawb oedd yn byw yn yr annedd ar ddiwrnod penodol. Mae'r system hon wedi goroesi ac mae'n dal i ffurfio sail y dull a ddefnyddiwn heddiw.

Yn yr Alban ni chafwyd gwasanaeth cofrestru lleol tan 1855. Rhoddodd Deddf ar wahân ym 1860 y cyfrifoldeb o gynnal Cyfrifiad 1861 i'r Cofrestrydd Cyffredinol ar gyfer yr Alban. Cyn pasio Deddf Cyfrifiad Gogledd Iwerddon 1969, cynhaliwyd cyfrifiadau yn y Dalaith o dan awdurdod Deddfau ar wahân Senedd Gogledd Iwerddon.

Ers 1801 cynhaliwyd cyfrifiad bob deng mlynedd ac eithrio 1941 yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Erys yr egwyddor sylfaenol yr un fath, er i gwestiynau newydd gael eu hychwanegu o bryd i'w gilydd ac i eraill ddiflannu. Hyd at 1911 roedd angen i'r Llywodraeth gyflwyno Deddf Cyfrifiad newydd ar gyfer pob cyfrifiad a gynhaliai. Newidiwyd hyn gan Ddeddf Cyfrifiad 1920 a'i gwnaeth yn bosibl i'r Llywodraeth gynnal cyfrifiad unrhyw bryd heb fod yn gynharach na phum mlynedd wedi'r cyfrifiad diwethaf.

## Cwestiynau dadleuol

Gall rhai o'r cwestiynau fod yn ddadleuol. Cyn Cyfrifiad 1951 roedd angen i Gofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr ar y pryd, Syr George North, ofyn i ferched fod yn fwy gonest am eu hoed. Teimlai llawer o ferched y cyfnod bod hwn yn gwestiwn rhy bersonol. Derbyniodd tudalennau problemau mewn papurau newydd a chylchgronau lu o ymholiadau gan ferched trallodus, yn ofni y byddai pawb yn cael gwybod eu hoedran cywir.

Doedd dim angen iddynt boeni. Fel gyda phob cyfrifiad, caiff gwybodaeth bersonol o'r natur hwn ei chadw'n hollol gyfrinachol ac ni chaiff ei datgelu i'r cyhoedd am 100 mlynedd.

## Cyfrifiad 2001

Bydd Cyfrifiad 2001 yn casglu mwy o wybodaeth nag erioed o'r blaen i greu darlun cywir a manwl o fywyd ym Mhrydain fodern. Mae'n dasg enfawr a bydd yn costio tua £255 miliwn dros y cyfnod 1993 i 2006, ac erbyn hynny bydd yr holl wybodaeth wedi'i phrosesu a'i chyhoeddi.

Ond heb os bydd y wybodaeth a gesglir ym mis Ebrill 2001 yr un mor arwyddocaol â'r wybodaeth a gasglwyd gan Gwilym I ar y tir a goncrodd ym 1066 – bydd Cyfrifiad heddiw yn creu hanes yfory.

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**

1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
4. Cyfrif Pawb – y Sialens Fawr
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk